# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 3

DARPARIAETHAU SY’N GYMWYS I BOB CONTRACT MEDDIANNAETH

## PENNOD 4

BLAENDALIADAU A CHYNLLUNIAU BLAENDAL

*Sicrwydd*

### 43 Ffurf sicrwydd

(1) Ni chaiff y landlord o dan gontract meddiannaeth ei gwneud yn ofynnol i sicrwydd gael ei roi ar unrhyw ffurf heblaw—

(a) arian, neu

(b) gwarant.

(2) Mae’r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract meddiannaeth.

### 44 Ffurf sicrwydd: dwyn achosion gerbron y llys sirol

(1) Mae’r adran hon yn berthnasol—

(a) os yw’r landlord o dan gontract meddiannaeth yn ei gwneud yn ofynnol i sicrwydd gael ei roi ar ffurf nad yw’n cael ei chaniatáu gan adran 43, a

(b) os yw sicrwydd yn cael ei roi ar y ffurf honno.

(2) Caiff deiliad y contract (neu unrhyw berson sydd wedi rhoi’r sicrwydd ar ei ran) wneud cais i’r llys sirol am orchymyn o dan is-adran (3).

(3) Gorchymyn sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r person yr ymddengys ei fod yn dal yr eiddo sy’n ffurfio’r sicrwydd ei ddychwelyd yw gorchymyn o dan yr is-adran hon.

*Cynlluniau blaendal*

**45 Gofyniad i ddefnyddio cynllun blaendal**

(1) Os yw deiliad y contract o dan gontract meddiannaeth yn talu blaendal (neu os yw person arall yn talu blaendal ar ei ran), rhaid ymdrin â'r blaendal yn unol â chynllun blaendal awdurdodedig.

(2) Cyn diwedd y cyfnod o 30 diwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r blaendal yn cael ei dalu, rhaid i'r landlord—

(a) cydymffurfio â gofynion cychwynnol cynllun blaendal awdurdodedig, a

(b) rhoi'r wybodaeth ofynnol i ddeiliaid y contract (ac i unrhyw berson sydd wedi talu'r blaendal ar ei ran).

(3) Y cyfryw wybodaeth a gaiff ei rhagnodi yw'r wybodaeth ofynnol, sy'n ymwneud ag—

(a) y cynllun blaendal awdurdodedig sy'n gymwys,

(b) cydymffurfiaeth y landlord â gofynion cychwynnol y cynllun, ac

(c) gweithrediad y Bennod hon, gan gynnwys hawliau deiliad y contract (a hawliau unrhyw berson sydd wedi talu'r blaendal ar ei ran) mewn perthynas â'r blaendal.

(4) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract meddiannaeth; mae adran 20 yn darparu—

(a) bod rhaid ymgorffori'r adran hon, a

(b) na chaniateir ymgorffori'r adran hon ynghyd ag addasiadau iddi.

**46 Cynlluniau blaendal: darpariaeth bellach**

(1) Mae Atodlen 5 yn cynnwys darpariaeth bellach ynghylch cynlluniau blaendal.

(2) Mae adrannau 177 a 198 yn gwneud darpariaeth yn ymwneud â chontractau safonol cyfnodol a chontractau safonol cyfnod penodol sy'n cynnwys cymal terfynu'r landlord, sy'n atal landlord rhag rhoi hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad contract ildio meddiant os nad yw'r landlord wedi cydymffurfio â gofynion penodol yn ymwneud â thalu sicrwydd neu'n ymwneud â chynlluniau blaendal.

**47 Cynlluniau blaendal: dehongli**

(1) Yn y Ddeddf hon—

ystyr "blaendal" ("*deposit*") yw arian sy'n cael ei dalu fel sicrwydd;

ystyr "cynllun blaendal awdurdodedig" ("*authorised deposit scheme*") yw cynllun blaendal sydd mewn grym yn unol â threfniadau o dan baragraff 1 o Atodlen 5 (ac mae i "cynllun blaendal" ("*deposit scheme*") yr ystyr a roddir gan is-baragraff (2) o'r paragraff hwnnw);

ystyr "gofynion cychwynnol" ("*initial requirements*"), mewn perthynas â chynllun blaendal awdurdodedig, yw gofynion y cynllun y mae'n rhaid i'r landlord gydymffurfio â hwy pan delir blaendal;

ystyr "sicrwydd" ("*security*") yw sicrwydd ar gyfer cyflawni rhwymedigaethau deiliad y contract a chyflawni atebolrwydd deiliad y contract.

(2) Yn y Ddeddf hon, mae cyfeiriadau at flaendal, mewn perthynas ag adeg ar ôl i flaendal gael ei dalu, yn gyfeiriadau at swm sy'n cynrychioli'r blaendal.